

# Croeso i Ogledd Tal-y-bont a Phorth Tal-y-bont



## Casglu Allwedi

Mae'r dderbynfa ar agor rhwng 08:00 a 22:00, ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 09:00 a 22:00 ar benwythnosau. Bydd allwedi ar gael i'w casglu ar ôl 15.00.

Os byddwch yn cyrraedd y tu allan i oriau'r dderbynfa, cysylltwch â'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau ([conference@caerdydd.ac.uk](mailto:conference@caerdydd.ac.uk)), er mwyn gwneud trefniadau eraill.

I'r rheini sydd wedi gwneud cynlluniau i gyrraedd yn hwyr cysylltwch â'r tîm Diogelwch ar ôl cyrraedd: +44 (0) 29 2087 4444.

Mae'r dderbynfa yn Nhŷ Southgate, Plas Bevan, Caerdydd CF14 3AT. Mae'r dderbynfa yng nghanol y safle, fel y nodir ar fap y safle sydd ynghlwm. Ffôn: +44 (0)29 2087 6334.

## Parcio

Y cyntaf i'r felin fydd hi wrth barcio ar y campws. Bydd yn cymryd tua 2 neu 3 munud i chi gerdded o'r prif faes parcio i'r llety sydd wedi'i neilltuo i chi, a rhaid talu am barcio.

Am fanylion ar sut i gadw lle ymlaen llaw a thalu am barcio, gweler [Parcio i Breswylwyr](#)

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch [conference@caerdydd.ac.uk](mailto:conference@caerdydd.ac.uk)

## Gwybodaeth Leol

Os byddwch yn teithio ar fws neu drên, mae'n cymryd tua 40 munud i gerdded o orsaf Caerdydd Canolog i dderbynfa Tŷ Southgate. Cathays yw'r orsaf agosaf, ac mae'n cymryd 25 munud i gerdded oddi yno i'r neuadd. Fel arall, mae tacsis ar gael yng nghanol y ddinas, mae'r prisiau'n amrywio gan ddibynnu ar y pellter a llif y traffig.

Am wybodaeth ynglŷn â theithio ar fws, defnyddiwch y ddolen ganlynol [Bws Caerdydd](#)

## Ar yr M4 o'r Gorllewin

- Gadewch y briffordd wrth gyffordd 32 a dilynwch yr A470 i mewn i Gaerdydd
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Wrth agosáu at Gyfnewidfa Gabalfa, arhoswch yn y lôn chwith a pheidiwch â mynd dros y drosffordd
- Bydd hyn yn dod â chi at y gylchfan
- Cymerwch y 4<sup>edd</sup> ffordd ymadael i'r A48, gan ddilyn arwydd Llety Myfyrwyr Tal-y-bont
- Bron yn syth ar ôl ymuno â'r A48, ewch i'r lôn chwith a pharatowch i droi i'r chwith wrth y set gyntaf o oleuadau traffig, ar Ffordd Excelsior
- Wrth y gylchfan fach, dilynwch yr allanfa gyntaf ac yna'r troad cyntaf i'r dde (mae McDonald's ar yr ochr chwith)
- Trowch bron yn syth i'r dde eto, i'r lôn dde bellaf i gyfeiriad Tal-y-bont
- Gyrwch i mewn heibio i'r gatiâu diogelwch, lle cewch eich cyfeirio at le parcio dros dro tra byddwch yn casglu eich allwedd

## Ar yr M4 o'r Dwyrain

- Gadewch y briffordd wrth gyffordd 29 a dilynwch yr A48 i mewn i Gaerdydd
- **Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A48**
- Yn union ar ôl yr allanfa ar gyfer Cyfnewidfa Gabalfa, ewch i'r lôn chwith a pharatowch i droi i'r chwith wrth y set gyntaf o oleuadau traffig cyntaf, ar Ffordd Excelsior
- Wrth y gylchfan fach, dilynwch yr allanfa gyntaf ac yna'r troad cyntaf i'r dde (mae McDonald's ar yr ochr chwith)
- Trowch bron yn syth i'r dde eto, i'r lôn dde bellaf i gyfeiriad Tal-y-bont
- Gyrwch i mewn heibio i'r gatiâu diogelwch, lle cewch eich cyfeirio at le parcio dros dro tra byddwch yn casglu eich allwedd

Cewch hyd i'r wybodaeth hon ar y gwefannau canlynol hefyd (CF14 3AT yw'r côd post ar gyfer eich SatNav yw - dilynwch yr arwyddion ar gyfer Tal-y-bont o hynny ymlaen):

This information can also be found via the following websites (SatNav postcode is CF14 3AT – follow sign posts to Talybont thereafter):

[www.rac.co.uk/route-planner](http://www.rac.co.uk/route-planner)  
[www.theaa.com/travelwatch/planner\\_main.jsp](http://www.theaa.com/travelwatch/planner_main.jsp)

Derbynfa cyfeirnod 34 ar y map / Gogledd Tal-y-bont cyfeirnod 53 ar y map / De Tal-y-bont cyfeirnod 54 ar y map / Porth Tal-y-bont cyfeirnod 52 ar y map

Reception map ref 34 / Talybont North map ref 53/ Talybont South map ref 54 / Talybont Gate map ref 52

